Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod

## Elidir Jones



Awdur a sgriptiwr o Fangor yw Elidir Jones, sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd. Cyhoeddwyd ei nofel gyntaf, *Y Porthwll*, yn 2015. Ers hynny mae wedi cyhoeddi nofel graffeg i blant *Seren a Sbarc yn Achub (Cwpan) y Bydysawd* gyda Huw Aaron, a *Peff*, ei addasiad o *Fing* gan David Walliams.


Mae hefyd yn chwareydd gitâr fas i'r band Plant Duw, ac yn un o sylfaenwyr y wefan fideowyth.com.

### Broliant:

"Yng nghysgodion yr ogof roedd yr Horwth yn cuddio."

Yr unig rai all ei drechu yw criw bach o anturiaethwyr annisgwyl. Mae'r llwybr yn arwain at y Copa Coch – mynydd sy'n taflu cysgod brawychus dros y tir, ac mae ei gyfrinachau mwyaf yn aros i'r teithwyr eu datgelu.

Dyma'r nofel gyntaf mewn cyfres ffantasi newydd i bobl ifanc – ac i unrhyw un hŷn sy'n hoff o antur!




**Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu'r llyfr hwn?**

Pan o'n i'n ifanc, roeddwn i ar dân eisiau darllen llyfrau ffantasi yn Gymraeg, ond ychydig iawn o ddewis oedd ar gael bryd hynny. Rŵan fy mod i mewn sefyllfa i wneud rhywbeth am y peth, dwi'n angerddol am greu llyfrau ffantasïol y bydd plant a phobl ifanc yng Nghymru eisiau eu darllen er pleser, yn eu hamser sbâr.

**Dywedwch ychydig am y stori rydych chi wedi'i chreu.**

*Yr Horwth* ydi'r cynta mewn cyfres (gobeithio!) o straeon ffantasi i bobl ifanc o'r enw *Chwedlau'r Copa Coch*.

Mae'r nofel yn dilyn pedwar prif gymeriad – Sara, Heti, Pietro a Nad – wrth iddyn nhw fynd ar siwrne beryglus i fynydd yng nghanol y tir gwyllt, y Copa Coch, er mwyn trechu bwystfil o'r enw'r Horwth sydd wedi bod yn ymosod ar y wlad o'i gwmpas.

**Beth ydych chi'n gobeithio y bydd darllenwyr yn ei gael o'r stori hon?**

Mae gen i obaith, wrth gwrs, y bydd darllenwyr sydd wrth eu boddau efo ffantasi yn barod yn cael blas ar *Yr Horwth*. Ond rydw i hefyd wir yn gobeithio y bydd y llyfr yn apelio at ddarllenwyr sydd erioed wedi darllen ffantasi o'r blaen, ac yn eu hysbrydoli digon fel eu bod yn troi at fwy o glasuron o'r *genre*, yn Gymraeg neu'n Saesneg.

atebol
www.atebol-siop.com

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru